Sefydliad Celf
Josef Herman
Art Foundation
josefhermanfoundation.org

mind Cymru
for better mental health
o blaid gwell iechyd meddwl

3 May 2020

Dear Colleague,

An Invitation to join Josef Herman Foundation's
Arts on a Postcard Project in aid of Mind Cymru

Following on from our very successful charity arts auction in December quite a few artists have contacted us to see if we can do anything to support health and care workers in the pandemic. We therefore are supporting Mind's Coronavirus National Appeal, which will in turn be helping to provide life-saving information and advice for everyone experiencing a mental health problem at a time when it is needed the most. We know that Covid 19 has had a radical effect on our NHS, care and essential services sector, and also on the general public experiencing lockdown and we want to try to support all as much as we can.

With social isolation and the current lockdown continuing, we thought that something that everybody can take part in is to send us a piece of original Arts on a Postcard. We will then develop a page on our website and social media to show all contributions. Supporters could then take part in an arts lottery and each supporter would, for a fixed amount of £25, receive original art on a postcard. We are hoping that a wide range of artists, creative practitioners and other contributors will take part by submitting a postcard.

Postcards can be up to A5 (148 x 210mm) or A6 (105 x 148mm) sized and unframed. All you need to do is to produce a piece of artwork or creative response that is able to fit into standard C5 envelope and posted as a standard letter. Stick it in an envelope and send it to us at JHF, c/o Oak Villa, off Amman Rd, Lower Brynamman, Ammanford SA18 1SN. We will leave it up to you what subject or topic to choose and what medium to use. You can submit paintings, drawings, cartoons, collages, photographs and prints, or a process of your own choice, providing that they are original works by you. Please send us your artwork on postcards before 21st June. You can also submit more than one if you like. We ask that you sign and print your name on the reverse of the postcard, title it if appropriate, and you can also put a message for the lucky supporter if you so wish.

In order to add a little bit of excitement to the project, we will display the work on a special page on our website and we will only list the artwork, not the artist or participant, which will be listed separately. Supporters will not know which artwork they will receive until they receive your postcard at the end of the project. All supporters will receive a postcard so no one will miss out and we can assure you that your artwork will find a good home!

All money raised will go to supporting Mind's Coronavirus National Appeal, and the project will be widely advertised by both the Josef Herman Foundation and by Mind. We will also publish the list of all participating artists and creative contributors.

Elinor Gilbey, Trustee & Chair of The Josef Herman Foundation, Miner's Welfare Hall, Brecon Road, Ystradgynlais, Powys, SA9 1JJ Tel: 07800 884615; Email: info@josefhermanfoundation.org, Charity Registration: 1100064; Company Registration; 4757025

The Josef Herman Foundation is a registered charity, established in 2002 to celebrate the life and work of the Polish Jewish refugee artist who fled the Warsaw ghettos, finding a home in Ystradgynlais in South Wales. Our patrons include The Most Reverend & Right Honourable Dr Rowan Williams, David Herman, actor Michael Sheen, playwright Ed Thomas, Dr Hywel Francis, Mair Francis, Mike Jones and the former Lord Chief Justice of England and Wales and Baron Thomas of Cwmgiedd. We have also organised past out-reach projects in association with Tate Britain. Based at The Welfare, Ystradgynlais, we:

- Exhibit and care for a collection of over 150 original drawings, prints and photographs, based at The Welfare, donated from the Herman Estate for the benefit of the local community;
- Host a Schools Programme and work in partnership with community groups, schools and local people, using Josef Herman and his connections to the heritage of post-industrial South West Wales as a catalyst for education, cultural and community regeneration; and
- Develop national/international links through our work to support community development in a disadvantaged area of Wales, raising awareness of the importance of human rights and working with schools, families and community across 5 local authorities in Wales. We also hold an annual Josef Herman Award: The People's Choice at the National Eisteddfod.

If you need more information about the Arts on a Postcard Project, please contact Pete Bryan (trustee and treasurer) at info@josefhermanfoundation.org or ring 01269 826942 and we will send you more information. We hope that you will be able to support this new and innovative programme which will help make sure everyone experiencing a mental health problem gets support, protection and respect in these difficult times.

Yours Sincerely,

EMGilbey

Elinor Gilbey
Chair

Elinor Gilbey, Trustee & Chair of The Josef Herman Foundation, Miner's Welfare Hall, Brecon Road, Ystradgynlais, Powys, SA9 1JJ Tel: 07800 884615; Email: info@josefhermanfoundation.org, Charity Registration: 1100064; Company Registration; 4757025

Sefydliad Celf
Josef Herman
Art Foundation
josefhermanfoundation.org

mind Cymru
for better mental health
o blaid gwell iechyd meddwl

3 May 2020

Annwyl Gydweithiwr

Gwahoddiad i ymuno â Sefydliad Celf Josef Herman Cymru ar Brosiect Celfyddyd ar Cerdyn Post er budd Mind Cymru

Yn dilyn llwyddiant aruthrol ein harwerthiant celfyddydau elusennol ym mis Rhagfyr mae cryn dipyn o artistiaid wedi cysylltu â ni i weld a allwn wneud rhyw beth i gefnogi gweithwyr iechyd a gofal yn y pandemig yma. Felly, rydym yn cefnogi Apêl Genedlaethol Coronavirus Mind, a fydd yn ei dro yn helpu darparu gwybodaeth a chyngor i bawb sy'n profi problem iechyd meddwl ar adeg pan mae ei angen fwyaf. Rydym yn gwybod bod Covid 19 wedi cael effaith radical ar ein sector GIG, gofal a gwasanaethau hanfodol, a hefyd ar y cyhoedd yn gyffredinol yn y cyfnod hunan-ynysu ac rydym am geisio cefnogi cymaint ag y gallwn.

Gydag arwahanrwydd cymdeithasol a'r broses hunan-ynysu gyfredol yn parhau, roeddwn o'r farn mai rhywbeth gall pawb gymryd rhan ynddo yw anfon darn o Gelfyddyd wreiddiol ar Gerdyn Post atom. Byddwn yn datblygu tudalen ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol i ddangos yr holl gyfraniadau. Yna gall cefnogwyr gymryd rhan mewn loteri gelf lle bydd pob cefnogwr, am swm sefydlog o £25, derbyn celfyddyd wreiddiol ar gerdyn post. Rydym yn gobeithio y bydd ystod eang o artistiaid, ymarferwyr creadigol a chyfranwyr eraill yn cymryd rhan trwy gyflwyno cerdyn post.

Gall cardiau post fod hyd at A5 (148 x 210mm) neu A6 (105 x 148mm) o faint heb ffrâm. Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw cynhyrchu darn o waith celf neu ymateb creadigol sy'n gallu ffitio i mewn i amlen C5 a'i bostio fel llythyr cyffredin. Rhowch y cerdyn mewn amlen a'i anfon atom JHF, c/o Oak Villa, off Amman Rd, Lower Brynamman, Ammanford SA18 1SN. Byddwn yn gadael i chi dewis eich pwnc a pha gyfrwng i'w ddefnyddio. Gallwch gyflwyno paentiadau, lluniadau, cartwnau, collage, ffotograffau a phrintiau, neu broses o'ch dewis eich hun, ar yr amod eu bod yn waith gwreiddiol gennych chi. Anfonwch eich gwaith celfyddydol ar gerdyn post atom, cyn 21 Mehefin. Gallwch gyflwyno mwy nag un cerdyn os dymunwch. Gofynnwn i chi lofnodi a phrintio eich enw ar gefn y cerdyn post, dewis teitl os yw'n briodol, a gallwch hefyd roi neges i'r cefnogwr lwcus os dymunwch.

Er mwyn ychwanegu ychydig bach o gyffro i'r prosiect, byddwn yn arddangos y gwaith ar dudalen arbennig ar ein gwefan a byddwn yn creu dwy restr ar wahân un i'r gwaith celf ac un i'r artist neu'r cyfranogwr. Ni fydd cefnogwyr yn gwybod pa waith celf y byddant yn ei dderbyn nes iddynt dderbyn eich cerdyn post ar ddiwedd y prosiect. Bydd pob cefnogwr yn derbyn cerdyn post felly ni fydd unrhyw un yn colli allan a gallwn eich sicrhau y bydd eich gwaith celf yn dod o hyd i gartref da!

Bydd yr holl arian a godir yn mynd i gefnogi Apêl Genedlaethol Coronavirus Mind, a bydd y prosiect yn cael ei hysbysebu'n eang gan Sefydliad Josef Herman a Mind. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r rhestr o'r holl

Elinor Gilbey, Trustee & Chair of The Josef Herman Foundation, Miner's Welfare Hall, Brecon Road, Ystradgynlais, Powys, SA9 1JJ Tel: 07800 884615; Email: info@josefhermanfoundation.org, Charity Registration: 1100064; Company Registration; 4757025

artistiaid a chyfranwyr creadigol sy'n cymryd rhan.

Elusen gofrestredig yw Sefydliad Josef Herman, a sefydlwyd yn 2002 i ddathlu bywyd a gwaith y ffoaduriaid ac arlunydd Iddewig o Wlad Pwyl a wnaeth ffoi o ghetto Warsaw, daeth o hyd i gartref yn Ystradgynlais yn Ne Cymru. Mae ein noddwyr yn cynnwys Y Parchedicaf a'r Gwir Anrhydeddus Dr Rowan Williams, David Herman, yr actor Michael Sheen, y dramodydd Ed Thomas, Dr Hywel Francis, Mair Francis, Mike Jones cyn Prif Ustus Cymru a Lloegr Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd. Rydym hefyd wedi trefnu prosiectau allgymorth yn y gorffennol ar y cyd â Tate Britain. Rydym wedi lleoli yn Neuadd Les, Ystradgynlais, rydym yn:

- Arddangos a gofalu am gasgliad o dros 150 o luniau, printiau a ffotograffau gwreiddiol, wedi'u lleoli yn Neuadd Les, Ystradgynlais. Rhodd gan Ystâd Herman er budd y gymuned leol;
- Cynnal Rhaglen Ysgolion a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, ysgolion a phobl leol, gan ddefnyddio Josef Herman a'i gysylltiadau â threftadaeth Dde-orllewin Cymru ôl-ddiwydiannol fel catalydd ar gyfer adfywio addysg, diwylliannol a chymunedol;
- Datblygu cysylltiadau cenedlaethol / rhyngwladol trwy ein gwaith i gefnogi datblygiad cymunedol mewn ardal ddifreintiedig yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hawliau dynol a gweithio gydag ysgolion, teuluoedd a'r gymuned ar draws 5 awdurdod lleol yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnal Gwobr Josef Herman flynyddol: Dewis y Bobl yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am y Prosiect Celfyddyd ar Gerdyn Post, cysylltwch â Pete Bryan (ymddiriedolwr a thrysorydd) ar info@josefhermanfoundation.org neu ffoniwch 01269 826942 gallwn anfon mwy o wybodaeth atoch. Gobeithiwn y byddwch yn gallu cefnogi'r prosiect newydd ac arloesol hon a fydd yn helpu i sicrhau bod pawb sy'n profi problem iechyd meddwl yn cael cefnogaeth, amddiffyniad a pharch yn yr amseroedd anodd hyn.

Yr eiddoch yn gywir

EMGilbey

Elinor Gilbey
Cadeirydd